Office for Nuclear Regulation (ONR)
Site Report for
Wylfa

Report for period 1 January – 30 June 2019

Foreword

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the Wylfa Site Stakeholder Group (SSG) and are also available on the ONR website (http://www.onr.org.uk/llc/).

Site inspectors from ONR usually attend Wylfa SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to inquire about matters covered by this report should contact ONR (http://www.onr.org.uk/feedback.htm).

TABLE OF CONTENTS

1 INSPECTIONS 3
2 ROUTINE MATTERS 3
3 NON-ROUTINE MATTERS 4
4 REGULATORY ACTIVITY 4
5 NEWS FROM ONR 4
6 CONTACTS 7

1 INSPECTIONS

1.1 Dates of inspection

ONR attended Wylfa site on the following dates:

- 18th - 20th February 2019
- 20th - March 2019
- 8th - 10th April 2019
- 4th – 6th June 2019

Some of the inspections were carried out with inspectors from the Licensee's internal regulatory organisation, Environment Agency (EA) and Natural Resources Wales (NRW).

2 ROUTINE MATTERS

2.1 Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- the conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- the Energy Act 2013
- the Health and Safety at Work Act 1974 (HSWA74); and
- regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 2017 (IRR17) and the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99).

The inspections entail monitoring licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence in order to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, ONR carried out the following inspections at Wylfa:

- LC 10 Training
- LC 12 Duly authorised and other suitably qualified and experienced persons
- LC 13 Nuclear Safety Committee
- LC 24 Operating instructions
- LC 25 Operational records
- LC 28 Examination, inspection, maintenance and testing
- LC 32 Accumulation of radioactive waste
- LC 34 Leakage and escape of radioactive material and radioactive waste
- LC 36 Organisational capability

In general, ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected. However, where improvements were considered necessary, the licensee made satisfactory commitments to address the issues, and the site inspector will monitor progress during future visits. Where necessary, ONR will take formal regulatory enforcement action to ensure that appropriate remedial measures are implemented to reasonably practicable timescales.

2.2 Other work

ONR's site inspector attended the Magnox Limited Welsh region emergency planning consultative committee meeting that provides a forum for those agencies with responsibilities under Wylfa and Trawsfynydd's off-site emergency plan.

ONR met Magnox Limited's Wylfa senior leadership team to discuss Wylfa's transition into "contingency arrangements" following fuel free verification of the Wylfa site. "Contingency arrangements" is the name given to the site's revised emergency arrangements which reflect the reduced nuclear hazard when fuel has been removed from the site. The change to contingency arrangements is against the background of the introduction of revised radiation emergency preparedness and public information regulations (REPPIR 2019) coming into force on 22nd May 2019. ONR has written to all nuclear licensees to explain our expectations during the 12 month transition period concerning compliance with these new regulations.

ONR's site inspector held a planned meeting with safety representatives, to support their function of representing employees and receiving information on matters affecting their health, safety and welfare at work.

3 NON-ROUTINE MATTERS

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee's response, including actions taken to implement any necessary improvements.

There were two incidents of note during this reporting period. The first occurred on 21st March 2019 and concerned the incorrect labelling of a radioactive waste drum consigned from the site; and the second occurred on 26th May 2019 when an off-site IT failure affected communications and data services to the site and also within the site. ONR's site inspector made follow up enquiries for both of these incidents and was satisfied with the site's response.

4 REGULATORY ACTIVITY

ONR may issue formal documents to ensure compliance with regulatory requirements. Under nuclear site Licence Conditions (LC - http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf) ONR issues regulatory documents which either permit an activity or require some form of action to be taken. These are collectively termed 'Licence Instruments' (LIs). In addition, inspectors may issue Enforcement Notices to secure improvements to safety.

There were no LIs, or Enforcement Notices issued during the period:

Table 1
Licence Instruments and Enforcement Notices Issued by ONR during this period

Date	Type	Ref No	Description
N/A	None		

Reports detailing the above regulatory decisions can be found on the ONR website at http://www.onr.org.uk/pars/.

5 NEWS FROM ONR

Enforcement Action

A summary of enforcement action is provided below. Further detail is available on our website.

- On 1 February, following ONR's prosecution, EDF Energy Nuclear Generation Ltd and Doosan Babcock Ltd were fined £200,000 and £150,000 respectively following an incident where a worker fell from height at Hinkley Point B power station in 2017.
- Two improvement notices issued to EDF Energy on 20 February following an incident on 19 November 2018 at Heysham 1, which resulted in injury to three EDF Employees.
- On 2 April Sellafield Ltd were fined £380,000 following ONR's prosecution for safety breaches relating to equipment used for the processing of plutonium.
- ONR notified Devonport Royal Dockyard (DRDL) of its intention to prosecute following an incident involving a crane that occurred in September 2018. Proceedings are scheduled to commence at Plymouth Magistrates' Court on 23 July 2019.
- Improvement notice issued to Sellafield Ltd in April 2019 following an incident in the waste vitrification plan in February 2019 where a container was not welded shut.

Regulatory Updates

- In February, a new nuclear site licence was granted to Tradebe Inutec for their Winfrith site in Dorset. A new site licence was required following Tradebe Inutec's acquisition of buildings and land at the Winfrith site from the Nuclear Decommissioning Authority (NDA) in February 2019.
- We published a report detailing safety "events" that took place in the UK between 2015-2017 in March. The report details the 56 safety significant events that took place between April 2015 and December 2017 – describing each event, the dutyholder's response, and the actions taken by the ONR. The full report is available on our website.
- In April we announced the appointment of two NGOs to the Chief Nuclear Inspector's Independent Advisory Panel (IAP) to increase diversity of views and strengthen our openness and transparency. We introduced the Chief Nuclear Inspector's IAP in 2016 to provide us with independent advice on nuclear matters.

Stakeholder Engagement

- We published our 2018 Stakeholder Survey report, in February following the survey in October/November last year. Stakeholders from across the sector were invited to take part in the survey with 329 responses received, providing valuable insight into how we are viewed by our stakeholders. The full report is available on our website.
- On 28 March, we held our NGO Forum in Manchester and were delighted to welcome 15 NGO representatives from 12 organisations. The minutes, agenda, presentations and pre-event briefing papers are all available on our website.
- In May we published our strategic framework for international engagement, setting out the priority objectives and criteria for international engagement up to 2025. The framework is available on our website.
- We launched two public consultations in April and June, both relating to the Euratom Basic Safety Standards Directive 2013. The first is a HSE consultation being managed by ONR on a new Approved Code of Practice that will assist dutyholder compliance with the new Radiation (Emergency Preparedness and Public Information) Regulations 2019 (REPPIR). The consultation closed on 5 June but was extended for local authorities until 27 June as some of the consultation took place during the pre-election period for Local Government. A final version of the ACOP will be published in autumn

2019. The second is on updated guidance to support the amendments to the Carriage of Dangerous Goods and use of Transportable Pressure Equipment Regulations (CDG). This remains open until 19 July 2019. A final version of the guidance will be published in late summer 2019.

- On 15 and 16 May we hosted the 23rd meeting of the Heads of European Radiological protection Competent Authorities (HERCA) in Liverpool. The meeting brought together the heads of radiological protection competent authorities from 22 European countries and involved over 50 experts from across Europe. HERCA is a voluntary association where the members work together to identify common issues and propose practical solutions to ensure the highest levels of radiation protection in Europe.
- On 23 May our Chief Nuclear Inspector, Mark Foy led a webinar, focusing on the work we do to regulate the industry in how it manages the risks arising from external hazards. Over 25 external stakeholders including NGOs joined the webinar.
- We held our annual Industry Conference on 5 June 2019 focusing on the theme of 'Open for Innovation'. More than 100 senior representatives from industry, government, other regulators, academics and research bodies attended with speakers including Joanna Whittington, Director General, Energy and Security at BEIS and Rumina Velshi, President of the Canadian Nuclear Safety Commission.

Corporate News

- Mark McAllister joined ONR on 1 April, succeeding Nick Baldwin CBE as our new Chair. As Chair Mark will be responsible for ensuring that we deliver our mission to provide efficient and effective regulation of the nuclear industry on behalf of the public.
- In April, we published our Corporate Plan for 2019/20, setting out our priorities and objectives for 2019/20. Maintaining the delivery of core regulatory functions and holding industry to account on behalf of the public remain at the heart of everything we do.
- We have been praised by the Nuclear Skills Strategy Group (NSSG), a government organisation, for ensuring we have the right capability and capacity to meet our regulatory demands. They removed the regulatory capacity risk placed on us in 2016 as recognition of our ongoing commitment to developing our staff and expanding our recruitment pipelines.
- We published our Annual Report and Accounts on 20 June highlighting our performance and key achievements in 2018/2019. We have continued to deliver our prime purpose of public safety, ensuring that dutyholders met the required standards of safety and security that society expects. We completed more than 750 inspections across 37 licensed sites, granting permission for 30 nuclear-related activities, serving nine improvement notices and instigating four prosecutions.
- We are embarking on the final year of our ONR Strategic Plan 2016-2020. So we are now starting to look ahead to what the next five years will bring and beginning to develop our new strategy for 2020-25. We're not doing this alone; we've already started talking to our staff and we are asking our stakeholders for their views to shape our plans. We are really keen to hear from SSG and LLC members and attendees to help us develop our strategic aims and objectives. We'd like to know:

  1)What is working well that we should keep doing and/or do more of?
  2) What do you think our top regulatory priorities should be in the 2020s?
  3) What do you think is missing from our current Strategic Plan that needs to feature in the next one?

- We intend to consult on our draft strategy in the autumn, but in the meantime, if you'd like to share your comments and suggestions please email us at: contact@onr.gov.uk . We look forward to hearing from you.

For the latest news and updates from ONR visit the website and sign up for our ebulletin (http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm).

6 CONTACTS

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS
website: www.onr.org.uk
email: contact@onr.gsi.gov.uk

This document is issued by the Office for Nuclear Regulation (ONR). For further information about ONR, or to report inconsistencies or inaccuracies in this publication please visit http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Office for Nuclear Regulation, 2019*
If you wish to reuse this information visit www.onr.org.uk/copyright.htm for details.
Published 07/19

For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.

Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR)
Adroddiad Safle ar gyfer
Wylfa

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr - 30 Mehefin 2019

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i drefnu bod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arolygu a rheoleiddio'n perthyn i'r hyn uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau'n chwarterol i aelodau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) Wylfa a hefyd maent ar gael ar y wefan ONR (http://www.onr.org.uk/llc/).

Fel arfer mae arolygwyr ONR yn mynychu cyfarfodydd SSG Wylfa lle cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwneud ymholiadau ynghylch materion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR (http://www.onr.org.uk/feedback.htm).

TABL CYNNWYS

1 AROLYGIADAU ..... **ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**
2 MATERION ARFEROL 3
3 MATERION ANARFEROL 4
4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL 4
5 NEWYDDION GAN ONR 4
6 CYSYLLTIADAU 7

1 AROLYGIADAU

1.1 Dyddiadau arolygu

Fe wnaeth ONR fynychu safle Wylfa ar y dyddiadau dilynol:

- 18fed - 20fed Chwefror 2019
- 20fed - Mawrth 2019
- 8fed - 10fed Ebrill 2019
- 4ydd – 6ed Mehefin 2019

Cynhaliwyd rhai o'r arolygiadau gydag arolygwyr o
sefydliad rheoleiddio mewnol y Trwyddedai, Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) a Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW).

2 MATERION ARFEROL

2.1 Arolygiadau

Gwneir arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiad â:

- yr amodau a atodir gan ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 (IRR99) a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd y trwyddedwr ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau a atodir i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithredu fel ei gilydd.

Yn y cyfnod hwn, fe wnaeth ONR gynnal yr arolygiadau dilynol yn Wylfa:

- LC 10 Hyfforddiant
- LC 12 Personau sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol a phobl eraill sydd â chymwysterau a phrofiad addas
- LC 13 Y Pwyllgor Diogelwch Niwclear
- LC 24 Cyfarwyddiadau gweithredu
- LC 25 Cofnodion gweithredol
- LC 28 Archwilio, arolygu, cynnal a chadw a phrofi
- LC 32 Gwastraff ymbelydrol yn cronni
- LC 34 Deunydd ymbelydrol a gwastraff ymbelydrol yn gollwng ac yn dianc
- LC 36 Gallu sefydliadol

Yn gyffredinol, fe wnaeth ONR farnu bod y trefniadau oedd wedi'u gwneud a'u gweithredu gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle ystyriwyd bod angen gwelliannau, fe wnaeth y trwyddedai ymrwymiadau boddhaol i drafod y problemau, a bydd yr arolygydd safle'n monitro cynnydd yn ystod ymweliadau'r dyfodol. Lle bydd angen, bydd ONR yn cymryd camau gorfodi rheoleiddiol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau unioni yn ôl amserlenni rhesymol ymarferol.

2.2 Gwaith arall

Fe mynychodd arolygydd safle ONR gyfarfod pwyllgor ymgynghori cynllunio argyfwng rhanbarth Cymru Magnox Cyfyngedig sy'n darparu fforwm ar gyfer yr asiantaethau hynny sydd â chyfrifoldebau dan gynllun argyfwng oddi ar y safle Wylfa a Thrawsfynydd.

Fe gyfarfu ONR ag uwch dîm arweinyddiaeth Magnox Cyfyngedig yn Wylfa i drafod trosglwyddiad Wylfa i “drefniadau wrth gefn” yn dilyn gwirio bod safle Wylfa’n ddi-danwyddi. “Trefniadau wrth gefn” yw'r enw a roddir ar drefniadau argyfwng diwygiedig y safle sy'n adlewyrchu llai o berygl niwclear pan yw tanwydd wedi'i dynnu odi ar y safle. Mae'r newid i drefniadau wrth gefn yn digwydd yn erbyn cefndir cyflwyno rheoliadau parodrwydd ar gyfer argyfwng ymbelydredd diwygiedig a rheoliadau ynghylch gwybodaeth gyhoeddus (REPPIR 2019) sy'n dod i rym ar 22 Mai 2019. Mae ONR wedi ysgrifennu at bob trwyddedai niwclear i esbonio ein disgwyliadau yn ystod y cyfnod pontio o 12 mis yn ymwneud â chydymffurfio â'r rheoliadau newydd hyn.

Fe gynhaliodd arolygydd safle ONR gyfarfod cynllunedig gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli cyflogeion a derbyn gwybodaeth am faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

3 MATERION ANARFEROL

Mae’n ofynnol i drwyddedeion gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anarferol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau a gymerir i weithredu unrhyw welliannau sydd eu hangen.

Fe gafwyd dau ddigwyddiad o bwys yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Digwyddodd y cyntaf ar 21 Mawrth 2019 ac roedd yn ymwneud â labelu drwm gwastraff ymbelydrol yn anghywir a anfonwyd o'r safle; a digwyddodd yr ail ar 26 Mai 2019 pan effeithiodd methiant TG oddi ar y safle ar wasanaethau cyfathrebu a data i'r safle a hefyd o fewn y safle. Fe wnaeth arolygydd safle ONR ymholiadau dilynol ar gyfer y ddau ddigwyddiad hyn ac roedd yn fodlon ag ymateb y safle.

4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL

Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau cydymffurfiad â gofynion rheoleiddiol. O dan amodau trwydded safle niwclear (LC - http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf) mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai’n caniatáu gweithgaredd neu’n mynnu bod rhyw fath o gamau’n cael eu cymryd. gelwir y rhain gyda’i gilydd yn ‘Offerynnau Trwydded’ (LIs). Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Ni chyhoeddwyd LIs na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod:

Tabl 1
Offerynnau Trwydded a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan ONR yn ystod y cyfnod hwn

Dyddiad	Math	Cyfeirnod	Disgrifiad
Ddim yn Gymwys	Dim Un		

Mae adroddiadau sy'n manylu ar y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar gael ar wefan yr ONR yn www.cymru.gov.uk http://www.onr.org.uk/pars/.

5 NEWYDDION GAN ONR

Camau Gorfodi

Rhoddir crynodeb o'r camau gorfodi isod. Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan.

- Ar 1 Chwefror, yn dilyn erlyniad ONR, fe gafodd EDF Energy Nuclear Generation Ltd a Doosan Babcock Ltd ddirwy o £200,000 a £150,000 yn y drefn honno yn dilyn digwyddiad lle disgynnodd gweithiwr o uchder yng ngorsaf bŵer Hinkley Point B yn 2017.
- Cyhoeddwyd dau hysbysiad gwella i EDF Energy ar 20 Chwefror yn dilyn digwyddiad ar 19 Tachwedd 2018 yn Heysham 1, a arweiniodd at anaf i dri Chyflogai EDF.
- Ar 2 Ebrill fe gafodd Sellafield Ltd ddirwy o £380,000 yn dilyn erlyniad ONR am doriadau ar ddiogelwch yn ymwneud ag offer a ddefnyddiwyd i brosesu plwtoniwm.
- Fe wnaeth ONR hysbysu Dockyard Brenhinol Devonport (DRDL) ei fod yn bwriadu erlyn yn dilyn digwyddiad yn ymwneud â chraen a ddigwyddodd ym mis Medi 2018. Bwriedir i'r achos gychwyn yn Llys Ynadon Plymouth ar 23 Gorffennaf 2019.
- Cyhoeddwyd hysbysiad gwella i Sellafield Ltd ym mis Ebrill 2019 yn dilyn digwyddiad yn y cynllun gwydroli gwastraff ym mis Chwefror 2019 lle na chafodd cynhwysydd ei weldio i fod ar gau.

Diweddariadau Rheoleiddiol

- Ym mis Chwefror, rhoddwyd trwydded safle niwclear newydd i Tradebe Inutec ar gyfer eu safle Winfrith yn Dorset. Roedd angen trwydded safle newydd yn dilyn caffaeliad Tradebe Inutec o adeiladau a thir yn safle Winfrith gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ym mis Chwefror 2019.
- Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad yn manylu ar “ddigwyddiadau” diogelwch a gynhaliwyd yn y DU rhwng 2015-2017 ym mis Mawrth. Mae'r adroddiad yn manylu ar y 56 o ddigwyddiadau diogelwch sylweddol a ddigwyddodd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Rhagfyr 2017 - gan ddisgrifio pob digwyddiad, ymateb y deiliad dyletswydd, a'r camau a gymerwyd gan yr ONR. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan.
- Ym mis Ebrill, fe wnaethom gyhoeddi penodiad dau NGO i Banel Cynghori Annibynnol y Prif Arolygydd Niwclear (IAP) i gynyddu amrywiaeth barn a chryfhau ein didwylledd a thryloywder. Fe wnaethom gyflwyno IAP y Prif Arolygydd Niwclear yn 2016 i ddarparu cyngor annibynnol i ni ar faterion niwclear.

Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid

- Fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar yr Arolwg Rhanddeiliaid 2018, ym mis Chwefror yn dilyn yr arolwg ym mis Hydref/Tachwedd y llynedd. Gwahoddwyd rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i gymryd rhan yn yr arolwg gyda 329 o ymatebiona dderbyniwyd, gan ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i sut mae ein rhanddeiliaid ynein gweld. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan.
- Ar 28 Mawrth, cynhaliwyd ein Fforwm Cyrff Anllywodraethol ym Manceinion ac roeddem wrth ein bodd i groesawu 15 o gynrychiolwyr NGO o 12 sefydliad. Mae'r cofnodion, yr agenda, y cyflwyniadau a'r papurau briffio cyn y digwyddiad i gyd ar gael ar ein gwefan.
- Ym mis Mai cyhoeddwyd ein fframwaith strategol ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol, gan gyflwyno'r amcanion a'r meini prawf blaenoriaethol ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol hyd at 2025. Mae'r fframwaith ar gael ar ein gwefan.
- Fe wnaethom lansio dau ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill a mis Mehefin, y ddau yn ymwneud â Chyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol Euratom 2013. Y cyntaf yw ymgynghoriad HSE yn cael ei reoli gan ONR ar Cod Ymarfer Cymeradwy

newydd a fydd yn cynorthwyo cydymffurfiad deiliaid dyletswydd â'r Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) newydd 2019 (REPPIR). Fe ddaeth yr ymgynghoriad i ben ar 5 Mehefin ond fe'i estynwyd i awdurdodau lleol tan 27 Mehefin gan fod rhywfaint o'r ymgynghoriad wedi digwydd yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad ar gyfer Llywodraeth Leol. Caiff fersiwn terfynol o'r ACOP ei gyhoeddi yn hydref 2019. Mae'r ail yn perthyn i gyfarwyddyd diweddaredig i gefnogi'r diwygiadau i Reoliadau Cludo Nwyddau Peryglus a defnydd o Offer Pwysedd Cludadwy (CDG). Bydd hyn yn parhau ar agor tan 19 Gorffennaf 2019. Cyhoeddir fersiwn terfynol o'r cyfarwyddyd tua diwedd yr haf 2019.

- Ar 15 ac 16 Mai fe wnaethom gynnal y 23ain cyfarfod o Benaethiaid Awdurdodau Cymwys Diogelwch Radiolegol Ewrop (HERCA) yn Lerpwl. Fe ddaeth y cyfarfod â phenaethiaid awdurdodau cymwys diogelwch radiolegol ynghyd o 22 o wledydd Ewropeaidd, gan gynnwys dros 50 o arbenigwyr o bob rhan o Ewrop. Cymdeithas wirfoddol yw HERCA lle mae'r aelodau'n cydweithio i nodi materion cyffredin a chynnig atebion ymarferol i sicrhau'r lefelau uchaf o ddiogewlch ymbelydredd yn Ewrop.
- Ar 23 Mai fe arweiniodd ein Prif Arolygydd Niwclear, Mark Foy weminar, yn canolbwyntio ar y gwaith a wnawn i reoleiddio'r diwydiant o ran sut mae'n rheoli'r risgiau sy'n deillio o beryglon allanol. Fe ymunodd mwy na 25 o randdeiliaid allanol, gan gynnwys cyrff anllywodraethol, â'r weminar.
- Fe wnaethom gynnal ein Cynhadledd Diwydiant flynyddol ar 5 Mehefin 2019 gan ganolbwyntio ar y thema 'Agored i Arloesi'. Fe fynychodd dros 100 o uwch gynrychiolwyr o ddiwydiant, llywodraeth, rheoleiddwyr eraill, academyddion a chyrff ymchwil gyda siaradwyr yn cynnwys Joanna Whittington, Cyfarwyddwraig Cyffredinol, Ynni a Diogelwch yn BEIS a Rumina Velshi, Llywydd Comisiwn Diogelwch Niwclear Canada.

Newyddion Corfforaethol

- Ymunodd Mark McAllister â'r ONR ar 1 Ebrill, gan olynu Nick Baldwin CBE fel ein Cadeirydd newydd. Fel Cadeirydd bydd Mark yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth i ddarparu rheoleiddio effeithlon ac effeithiol ar y diwydiant niwclear ar ran y cyhoedd.
- Ym mis Ebrill, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2019/20, yn cyflwyno ein blaenoriaethau a'n hamcanion ar gyfer 2019/20. Mae cynnal swyddogaethau rheoleiddio craidd a dal diwydiant i gyfrif ar ran y cyhoedd yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.
- Rydym wedi cael ein canmol gan y Grŵp Strategaeth Sgiliau Niwclear (NSSG), sef sefydliad y llywodraeth, am sicrhau bod gennym y gallu a'r capasiti cywir i ddiwallu ein galwadau rheoleiddio. Fe wnaethant ddileu'r risg gapasiti rheoleiddio a osodwyd arnom yn 2016 fel cydnabyddiaeth o'n hymrwymiad parhaus i ddatblygu ein staff ac ehangu ein piblinellau recriwtio.
- Fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar 20 Mehefin yn amlygu ein perfformiad a'n cyflawniadau allweddol yn 2018/2019. Rydym wedi parhau i gyflawni ein prif ddiben o ddiogelwch y cyhoedd, gan sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn diwallu'r safonau gofynnol o ddiogelwch a diogeledd y mae cymdeithas yn eu disgwyl. Fe wnaethom gwblhau dros 750 o arolygiadau ar draws 37 o safleoedd trwyddedig, gan roi caniatâd ar gyfer 30 o weithgareddau cysylltiedig â niwclear, gan gyflwyno naw hysbysiad gwella a chychwyn pedwar erlyniad.
- Rydym yn cychwyn ar flwyddyn olaf ein Cynllun Strategol ONR 2016-2020. Felly nawr rydym yn dechrau edrych ymlaen at yr hyn y bydd y pum mlynedd nesaf yn ei gynnig ac yn dechrau datblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2020-25. Nid ydym yn gwneud hyn ar ein pennau ein hunain; rydym eisoes wedi dechrau siarad â'n staff ac rydym yn gofyn i'n rhanddeiliaid am eu barn er mwyn llunio ein cynlluniau. Rydym yn awyddus iawn i glywed gan aelodau a mynychwyr SSG ac LLC i'n helpu i ddatblygu ein nodau ac amcanion strategol. Hoffem wybod:

1) Beth sy'n gweithio'n dda y dylem barhau i'w wneud ac/neu wneud mwy ohono?
2) Yn eich barn chi beth ddylai ein prif flaenoriaethau rheoleiddio fod yn y 2020au?
3) Yn eich barn chi beth sydd ar goll o'n Cynllun Strategol cyfredol sydd angen ei gynnwys yn yr un nesaf?

- Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein strategaeth ddrafft yn yr hydref, ond yn y cyfamser, os hoffech rannu eich sylwadau a'ch awgrymiadau, anfonwch e-bost atom yn: contact@onr.gov.uk. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

I gael y newyddion diweddaraf a diweddariadau gan ONE ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm).

6 CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersey
L20 7HS
gwefane: www.onr.org.uk
e-bost: contact@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2019*
Os dymunwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 07/19

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, mae'r copi electronig ar y wefan ONR yn aros fel y fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu nad yw'r ddogfen hon wedi'i rheoli.

.